**Grŵp Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**
**Economy, Skills and Natural Resources Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Brif Swyddogion Cynllunio

1 Ebrill 2019

Annwyl Gydweithwyr

Mae'r fersiwn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn gwneud creu lleoedd yn rhan annatod o bolisi cynllunio cenedlaethol. Mae paragraffau 3.19 i 3.24 yn hyrwyddo rôl y system gynllunio i greu lleoedd iachach, gan gydnabod bod yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn benderfynyn allweddol mewn perthynas ag iechyd a llesiant. Mae'r ffordd mae lleoedd yn gweithio a gweithredu yn cael effeithiau uniongyrchol ar y dewisiadau mae pobl yn eu gwneud, ac mae'r rhain yn gysylltiedig â nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o sicrhau Cymru Iachach.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad adroddiad[1] ar ei ymchwiliad i atal hunanladdiad yng Nghymru. Yn ystod ei wrandawiadau, clywodd y pwyllgor enghreifftiau o ble roedd mesurau atal hunanladdiad wedi'u rhoi ar waith o fewn datblygiadau i helpu i leihau'r risg neu i annog pobl i gael help pellach.

Yn ei adroddiad, mae'r pwyllgor yn myfyrio ar bwysigrwydd dylunio strwythurau sy'n cyfyngu ar fynediad at ddulliau hunanladdiad. Dylid ystyried rheilffyrdd, llefydd cyhoeddus, adeiladau uchel a phontydd, er enghraifft. Mae rhai dulliau arloesol ar waith yng Nghymru a'r DU i ddiogelu'r rhai sy'n wynebu risg gan gynnal dyluniadau apelgar yr un pryd. Mae'r pwyllgor yn nodi mai diogelwch ddylai fod yr ystyriaeth allweddol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gall y mesurau hyn gael eu hintegreiddio yn nyluniad datblygiadau newydd mewn ffordd sy'n lleihau effaith weledol gyffredinol mesurau a fyddai fel arall yn 'swyddogaethol' i ddiogelu pobl. Yr amser gorau i wneud hyn yw wrth ddylunio cynnig lle gall mesurau gael eu hintegreiddio yn y datblygiad yn hytrach na chael eu hystyried fel 'ychwanegiad' at y broses ar y diwedd. Dylai unrhyw fesurau fod yn ategol i'r angen cyffredinol i greu lleoedd da, ac ni ddylent arwain at rwystro hyn.

Wrth drafod gyda datblygwyr (yn y cyfnod cyn ymgeisio a chyfnod y cais cynllunio) a'u cydweithwyr eu hunain mewn llywodraeth leol / gwasanaethau cyhoeddus adeiladau / strwythurau uchel newydd, pontydd, gorsafoedd rheilffordd ac ardaloedd eraill â chyfraddau hunanladdiad uchel, dylai awdurdodau cynllunio lleol godi'r mater a gofyn am i fesurau atal gael eu hintegreiddio yn y dyluniad cyffredinol.

[1] http://senedd.assembly.wales/documents/s83783/Report%20-%20Everybodys%20Business%20A%20report%20on%20suicide%20prevention%20in%20Wales.pdf

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 5380
neil.hemington@wales.gsi.gov.uk

Yn 2015, cyhoeddodd Public Health England '*Preventing suicides in public places: A practice resource*'[2] sy'n rhoi cyngor ymarferol pellach ar y mater. Rydym wrthi'n ystyried a ellir addasu hwn yng nghyd-destun Cymru. Mae cyngor pellach ar gael yn www.talktometoo.wales  Gall gwasanaeth adolygu dyluniad Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW)[3] helpu i ddarparu cyngor ymarferol annibynnol ar sut gall mesurau gael eu hymgorffori yn y datblygiadau hynny sy'n wynebu risg uwch o bobl yn ceisio cyflawni hunanladdiad.

Dylai'r system gynllunio gyfrannu at helpu i greu lleoedd gwell sy'n lleihau cyfleoedd i bobl wneud niwed iddyn nhw'u hunain neu eraill ac rwy'n eich annog i feddwl yn ofalus am y mater hwn wrth ystyried cynigion datblygu.

Yn gywir



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Llywodraeth Cymru**

[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/769006/Preventing_suicides_in_public_places.pdf
[3] http://dcfw.org